Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 26 Tachwedd 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(165)v5

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**Cwestiwn Brys**
**Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y bwriad i gael uned ddamweiniau wedi'i harwain gan feddygon yn Ysbyty Tywysog Philip Llanelli yn sgîl ei lythyr at gadeirydd Plaid Lafur Llanelli dyddiedig 21 Tachwedd 2013?

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**Cynnig i ethol Aelod i Bwyllgor**

NDM5375 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Jocelyn Davies (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn lle Lindsay Whittle (Plaid Cymru).

### 3 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid: Ymateb Llawn Llywodraeth y DU i Adroddiad Comisiwn Silk ar Ddiwygio Ariannol (30 munud)

Dogfen Ategol

Grymuso a Chyfrifoldeb: datganoli pwerau ariannol i Gymru (Saesneg yn unig)

**4 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Adolygiad Hill: Darparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol (30 munud)**

Dogfen Ategol

Ymgynghoriad – Darparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol

**5 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Cynllun gweithredu strategol morol a physgodfeydd (30 munud)**

**6 Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Y cynnydd o ran cyflwyno Strategaeth Yr Hawl i fod yn Ddiogel (30 munud)**

Dogfennau Ategol

Y Strategaeth ar Hawl i fod yn Ddiogel a Chynllun Gweithredu

Yr Hawl i fod yn Ddiogel – Adroddiad Blynyddol 2012-13

Ymgynghoriad ar Bapur Gwyn – Deddfwriaeth i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, trais domestig a thrais rhywiol (Cymru) a chrynodeb o'r ymatebion.

**Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân**

**7 Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 (15 munud)**

NDM5364 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Tachwedd 2013.

**Dogfennau Ategol**

Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013

Memorandwm Esboniadol (Saesneg un unig)

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Adroddiad

Ymatebion y Llywodraeth i Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwri

**8 Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 (15 munud)**

NDM5365 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:
Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Tachwedd 2013.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol - Adroddiad

**9 Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Addasu Deddfiadau a Darpariaethau Eraill) 2013 (15 munud)**
NDM5366 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:
Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Addasu Deddfiadau a Darpariaethau eraill) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Tachwedd 2013.

**Dogfennau Ategol**
Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Addasu Deddfiadau a Darpariaethau eraill) 2013
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)

**Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân**

**10 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Gofal (15 munud)**
NDM5247 Gwenda Thomas (Castell-nedd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Gofal, sy'n ymwneud â threfniadau cyfatebol y DU ar gyfer lleoli oedolion ar draws ffiniau, trefniadau i sicrhau parhad yn y gofal i oedolion yn achos methiant gan y darparwr ac i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gydweithredu â'r Awdurdod Ymchwil Iechyd, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mai 2013 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Gorffennaf 2013 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).

I weld copi o'r Bil ewch i:
Bill documents — Care Bill [HL] 2013-14 — UK Parliament (Saesneg yn unig)

**Dogfennau Ategol**
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Adroddiad ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig ac atodol ar gyfer y Bil Gofal

**11 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â'r Bil Gofal (15 munud)**

NDM5331 Gwenda Thomas (Castell-nedd)
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried, yn ychwanegol at y darpariaethau y cyfeirir atynt yng nghynnig NNDM5247, y darpariaethau pellach hynny yn y Bil Gofal sy'n ymwneud â threfniadau cyfatebol y DU ar gyfer lleoliadau trawsffiniol oedolion ac ôl-ofal iechyd meddwl ar gyfer pobl, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Hydref 2013 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).

I weld copi o'r Bil ewch i:

Bill documents - Care Bill [HL] 2013-14 - UK Parliament (Saesneg un unig)

**Dogfennau Ategol**
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol
Llythyr gan y Dirprwy Weinidog at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Adroddiad ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig ac atodol ar gyfer y Bil Gofal

**12 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona mewn perthynas â'r eithriad ASBO (15 munud)**

NDM5342 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU wneud darpariaethau yn y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona, i ddiwygio'r eithriad ynghylch gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol ym mharagraff 12, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Hydref 2013 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).

I weld copi o'r Bil ewch i:

Bill documents - Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill [HC] 2013-14 - UK Parliament (Saesneg yn unig)

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol - Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol i'r Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismo

**13 Dadl: Y manteision i Gymru i'r DU barhau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd (60 munud)**

NDM5367 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod y manteision i Gymru pe bai'r Deyrnas Unedig yn parhau'n aelod o'r Undeb Ewropeaidd.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod bod angen ailnegodi ein perthynas bresennol â’r UE fel y gall Cymru a'r DU fanteisio ar Undeb Ewropeaidd sy’n canolbwyntio'n fwy ar faterion economaidd.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddechrau’r cynnig:

Yn nodi bod 160,000 o swyddi Cymru yn dibynnu ar y DU yn aros yn aelod o’r UE; bod Cymru’n elwa o £144 miliwn y flwyddyn o fod yn aelod o'r UE; a bod dros 10,000 o gwmnïau yng Nghymru yn masnachu gyda gwledydd eraill yn yr UE bob blwyddyn, sy'n dangos pwysigrwydd cael mynediad i'r farchnad sengl a threfniadau masnach rydd yr UE gyda thrydydd partïon ar gyfer swyddi a'r economi yng Nghymru.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddechrau’r cynnig:

Yn croesawu rôl yr UE yn diogelu ein hamgylchedd fel arweinydd byd wrth fynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd a llygredd trawsffiniol, a phwysigrwydd y cydymrwymiadau allweddol yn nhargedau 20-20-20 i wella effeithlonrwydd ynni, lleihau allyriadau nwyon ty gwydr a chynyddu’r gyfran o’r ynni a ddefnyddir yn yr UE sy’n cael ei chynhyrchu o adnoddau adnewyddadwy.

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddechrau’r cynnig:

Yn croesawu cydweithrediad Cymru ag Europol ac Eurojust, a'i gallu i ddefnyddio'r Warant Arestio Ewropeaidd fel arf, i ddiogelu dinasyddion Cymru rhag troseddau.

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd y cynnig:

sy’n cynnwys gwneud Cymru yn wlad fwy llewyrchus, mwy cynaliadwy a mwy diogel.

**Gwelliant 6 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu, os bydd refferendwm yn cael ei gynnal ynghylch a ddylai’r DU aros yn aelod o’r Undeb Ewropeaidd, y dylai canlyniad Cymru gyfan gael ei gofnodi ar wahân.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 27 Tachwedd 2013

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 21 Tachwedd 2013 i'w hateb ar 26 Tachwedd 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo sector treftadaeth Cymru? OAQ(4)1365(FM)

2. **Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y system cyfiawnder troseddol? OAQ(4)1368(FM)

3. **Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol yn ei wneud i hybu pynciau STEM yng Nghymru? OAQ(4)1359(FM)

4. **Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran rhoi Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ar waith? OAQ(4)1366(FM)

5. **Peter Black (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar ddigartrefedd? OAQ(4)1351(FM)

6. **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**: Pa gamau a fydd yn cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y chwe mis nesaf i fynd i'r afael â throseddau casineb yng Nghymru? OAQ(4)1355(FM)

7. **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd systemau trafnidiaeth integredig mewn modelau dinas-ranbarthau? OAQ(4)1354(FM)

8. **Mick Antoniw (Pontypridd)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatganoli trethi a phwerau benthyg i Gymru? OAQ(4)1363(FM)

9. **Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n mynd rhagddo i ddileu HIV/AIDS yng Nghymru? OAQ(4)1353(FM)

10. **Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)**: A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu adolygu ei pholisïau a thargedau ynni adnewyddadwy i ystyried technolegau newydd? OAQ(4)1358(FM)

11. **Alun Ffred Jones (Arfon)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymateb Llywodraeth y Deyrnas Unedig i adroddiad Comisiwn Silk? OAQ(4)1360(FM)W

12. **Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau iechyd yn Sir Benfro? OAQ(4)1352(FM)

13. **Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gymorth Llywodraeth Cymru i Undebau Credyd yng nghanolbarth a gorllewin Cymru? OAQ(4)1369(FM)

14. **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**: Pa gynnydd sydd wedi'i wneud gyda sefydlu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i Gymru? OAQ(4)1361(FM)

15. **Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**: Sut y mae Llywodraeth Cymru yn amddiffyn pobl hŷn rhag masnachwyr twyllodrus? OAQ(4)1356(FM)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dydd Mawrth 3 Rhagfyr a dydd Mercher 4 Rhagfyr 2013

Dydd Mawrth 10 Rhagfyr a dydd Mercher 11 Rhagfyr 2013

Dydd Mawrth 14 Ionawr a dydd Mercher 15 Ionawr 2014

*********************************************************************

Dydd Mawrth 3 Rhagfyr 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Ymatebion i'r Papur Gwyn "Rhentu Cartrefi" (30 munud)
- Dadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i gytuno ar y penderfyniad ariannol mewn perthynas â Bil Addysg (Cymru) (5 munud)
- Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) (60 munud)
  Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil. Ar ddiwedd Cyfnod 3, caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47.
- Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) (5 munud)
- Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Cyllid y GIG (Cymru) (60 munud)
  Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil. Ar ddiwedd Cyfnod 3, caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47.
- Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Cyllid y GIG (Cymru) (5 munud)

Dydd Mercher 4 Rhagfyr 2013

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i’r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud) NNDM5358

  Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)
  Mark Isherwood (Gogledd Cymru)
  Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)
  Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)
  Aled Roberts (Gogledd Cymru)
  Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)

  Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

  1. Yn nodi â phryder difrifol:
  a) yr achosion o droseddwyr yn targedu plant agored i niwed er mwyn cam-fanteisio’n rhywiol arnynt;
  b) bod plant sydd ar goll o ofal yn wynebu perygl penodol o gam-fanteisio rhywiol;
  c) y dystiolaeth nad yw awdurdodau lleol yng Nghymru hyd yma yn gweithredu’n llawn ganllawiau Llywodraeth Cymru i ddiogelu plant sy'n mynd ar goll o ofal;
  d) y gall yr arfer o leoli y tu allan i ardal olygu bod plant sy'n derbyn gofal yn wynebu mwy o berygl o gamdriniaeth a cham-fanteisio.

  2. Yn cymeradwyo gwaith Prosiect Plant ar Goll Gwent ac yn nodi'r angen am ddata cymaradwy, cyson a dibynadwy ar yr achosion o blant sy'n derbyn gofal sy'n mynd ar goll o gartrefi plant a gofal maeth.
- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru) (30 munud)

Dydd Mawrth 10 Rhagfyr 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: PISA 2012 (30 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Dŵr (15 munud)
- Dadl ar y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2014-15 (60 munud)
- Dadl ar yr Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy (60 munud)
- Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) (60 munud)
  Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil. Ar ddiwedd Cyfnod 3, caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47.
- Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) (5 munud)

Dydd Mercher 11 Rhagfyr 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Julie Morgan (Gogledd Caerdydd) (30 munud)

Dydd Mawrth 14 Ionawr 2014

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

- Datganiad gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Rhoi Polisi Amaethyddol Cyffredin newydd ar waith (30 munud)
- Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru Rhif 2) 2013 (15 munud)
- Dadl: Setliadau Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol ar gyfer 2014-15 (60 munud)
- Dadl: Yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol (60 munud)

Dydd Mercher 15 Ionawr 2014

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)